Sgript Kate Roberts

Gwisg: *Gwisg syml i adlewyrchu'r flwyddyn 1960*

Props: *Bwrdd a chadair syml. Mae pad papur gyda llawer o ysgrifennu arno ar y bwrdd, ynghyd â ffownten pen. Mae KR wrthi'n sgrifennu ei hatgofion*

Llun du-a-gwyn wedi'i fframio – bachgen bach: Dei

Sgript:

MAE KR YN PLYGU DROS Y BWRDD, YN YSGRIFENNU EI HENW'N OFALUS IAWN AR Y PAD PAPUR. MAE'N DECHRAU SIARAD WRTH YSGRIFENNU

Ka..te… Ro... berts. Dyna fo!

MAE'N TROI AT Y GYNULLEIDFA

Ond nid Kate Roberts, Brenhines ein Llên o'n i i gychwyn 'chwaith… Gesh i fy ngeni yn *Catherine* Roberts, merch Owen a Catrin – y ddau ar eu *hail* briodas, cofiwch! Odd gin i ddwy hanner chwaer a dau hanner brawd, ac fe gafodd fy rhieni dri o fechgyn eraill wedyn – Richard, Evan a David, neu Dei fel câi ei alw gan bawb – a dyma 'ngwir deulu. Cawsom ein magu mewn tyddyn o'r enw Cae'r Gors yn Rhosgadfan. A dyma fy myd.

Esh i i'r ysgol gynradd yn Rhostryfan – ac yna ennill ysgoloriaeth i fynd i'r Ysgol Sir yng Nghaernarfon. Dipyn o gamp – do'dd dim llawer o ferched yn cael addysg uwchradd bryd hynny ac ro'dd rhaid imi aros yn y dref gan fod tair milltir i deithio 'nôl a blaen. Do'n i ddim yn mwynhau'r ysgol o gwbl a ro'n i'n hiraethu am fod adref efo'm rhieni a 'mrawd bach Dei.

MAE'N EDRYCH YN GARIADUS AR Y LLUN

Gesh i fy swydd gyntaf yn 24 oed, fel athrawes yn adran Gymraeg Ysgol Ystalyfera – a finna 'rioed 'di clywed am y fath le! Yn fan'no ddesh i'n aelod o gwmni drama a chymdeithas y Ddraig Goch. Ym myd y *ddrama* nesh i fy marc gyntaf wrth sgwennu. Deud y gwir, ma sgwennu deialog yn dod yn naturiol i mi. Comedïau odd y dramâu cynnar yma – er bod rhai beirniaid ar y pryd yn gwrthod credu bod gen i unrhyw beth i neud â chomedi...

Beth bynnag, codi pres oeddan ni – a'r pres hwnnw'n mynd i drigolion yr ardal a gollodd anwyliaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Amser gofidus odd hwn i bawb, ac ro'dd dau o 'mrodyr, Evan a Dei wedi gorfod ymuno â'r fyddin. Clwyfwyd Evan yn y Somme, ac ar y diwrnod olaf o Orffennaf 1917, derbyniodd Mam delegram i ddeud bod Dei wedi marw.

MAE'N AROS AM EILIAD AC YN EDRYCH YN DDWYS IAWN AR Y LLUN

Un deg naw odd o, 'ngwash bach del i. Ro'dd y tristwch o'i golli o yn fy llethu, a DYMA'R foment wnes i ddechrau sgwennu o ddifri – ro'n i'n…

MAE'N TROI AT Y PAD, YN EDRYCH DRWYDDO TAN IDDI GAEL HYD I'R GEIRIAU, AC YN EU DARLLEN YN UCHEL

"methu deall pethau a gorfod sgrifennu rhag mygu..."

Rwy'n ddynes groendenau iawn 'dach chi'n gweld – mae popeth yn fy mrifo'n ddwfn, a'r briw yn aros yn hir. Cafodd marwolaeth Dei ddylanwad mawr ar fy ngwaith, a phan sgwennish i *Traed Mewn Cyffion*, o'n i'n benderfynol o ddisgrifio effaith erchyll y rhyfel ar deulu cyffredin yng Nghymru.

Ond mi odd 'na hapusrwydd hefyd. Haf 1926 – ro'n i'n sefyll ar y platfform yn y Groeslon. A dyna lle'r odd o. Dyn ifanc golygus, pryd golau, glas ei lygaid. Morris Williams. Ro'dd Morris yn dod o'r Groeslon ac yn gweithio fel argraffydd papurau newydd, ac ro'dd yntau hefyd yn genedlaetholwr brwd ac ar ei ffordd i'r un cyfarfod â mi. Ond yng nghyntedd y trên llawn ro'dd ffrind Morris yn sefyll. Prosser Rhys. Ac wrth ddod i nabod Morris fe ddoish i hefyd i nabod Prosser. Achos, lle bynnag yr âi Morris, âi Prosser.

Ddwy flynedd ynghynt, ro'dd Prosser Rhys wedi ennill coron Eisteddfod Genedlaethol Pontypŵl am ei bryddest *Atgof* – ac yn y bryddest mae'n archwilio'r berthynas gnawdol rhwng dau ddyn. Y dyn ro'dd Prosser yn cyfeirio ato yn ei bryddest odd Morris. Y dyn syrthiais inna mewn cariad efo fo – a'i briodi.

Yn 1935 symudodd y ddau ohonom i Ddinbych a phrynu Gwasg Gee, busnes argraffu odd yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg. Sgwennais i ddim llawer yn fy mlynyddoedd cyntaf yno. Dan bwysau gwaith mawr ro'dd Morris wedi dechrau mynd i yfed yn drwm ac yna, cafodd ei daro'n wael. Dirywiodd ei iechyd yn gyflym ac ar Ionawr 6ed 1946 bu farw. Gorweithio... a goryfed. Ro'dd yr arwyddion i gyd yna wrth gwrs, ond ro'n i wedi dewis peidio â'u gweld.

Yn 55 oed, ro'n i'n wraig weddw, ac yn gorfod rhedeg y busnes ar fy mhen fy hun.

MAE'N EDRYCH ETO AR LUN DEI

Fy hiraeth am Gae'r Gors a'm galar am fy mrawd bach ac yna fy ngŵr sicrhaodd 'mod i'n sgwennu 'dach chi'n gweld. Er 'mod i wedi treulio dros hanner fy mywyd yn Ninbych, dwi'n dal i freuddwydio am Gae'r Gors o hyd – a dwi eisiau bod yn ôl yno efo 'nheulu yn rhodio'r mynydd grug a'r lôn wen... am byth…

MAE'N CODI, CYDIO YN Y PAD PAPUR AC YN GADAEL Y LLWYFAN